Ffocws ar

CYFRES YR HAF 2018

Gymwysterau UG a Safon Uwch Diwygiedig 2018

Mae cymwysterau UG diwygiedig ar gael am y tro cyntaf yr haf hwn mewn chwe phwnc:

- Dylunio a thechnoleg
- Llywodraeth a Gwleidyddiaeth
- Y Gyfraith
- Mathemateg Bellach
- Mathemateg
- Astudiaethau'r Cyfryngau

Hefyd, mae cymwysterau Safon Uwch diwygiedig ar gael am y tro cyntaf mewn 10 pwnc:

- Drama
- Ffrangeg
- Daearyddiaeth
- Almaeneg
- Mathemateg
- Cerddoriaeth
- Addysg Gorfforol
- Astudiaethau Crefyddol
- Sbaeneg
- Cymraeg Ail Iaith

Beth yw nodweddion y cymwysterau UG a Safon Uwch newydd yng Nghymru?

Mae cymwysterau UG a Safon Uwch yn parhau i fod wedi'u paru - hynny yw, mae'r cymhwyster UG yn cyfrannu tuag at gymhwyster Safon Uwch o hyd. Mae'r raddfa graddio hefyd yn aros yr un fath: A i E ar gyfer UG ac A* i E ar gyfer Safon Uwch. Fodd bynnag, ar gyfer y cymwysterau newydd hyn, bydd y cymhwyster UG yn cyfrannu 40% tuag at y cymhwyster Safon Uwch cyffredinol, lle roedd yn cyfrannu 50% cyn hynny.

Mae cymwysterau UG a Safon Uwch hefyd yn newid yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rydym wedi gweithio gyda'r rheoleiddwyr yn y gwledydd hynny i lunio taflen wybodaeth i esbonio'r newidiadau hyn.

Pwy sy'n sefyll arholiadau'r cymwysterau hyn yr haf hwn?

Ar lefel UG a Safon Uwch, mae cofrestriadau wedi gostwng eto eleni. Ar lefel UG, mae cofrestriadau cyffredinol wedi gostwng 8% o gymharu â 2017. Ar lefel Safon Uwch, mae cofrestriadau 2018 5% yn is na chofrestriadau 2017.

Gallai'r newidiadau hyn olygu y bydd canlyniadau UG a Safon Uwch yr haf hwn yn wahanol i flynyddoedd blaenorol am fod natur y garfan sy'n sefyll yr arholiadau hyn wedi newid efallai.

Rydym wedi dechrau edrych yn fanylach ar y data cofrestriadau, er mwyn ystyried beth allai fod yn achosi'r gostyngiad parhaus hwn yng nghyfanswm nifer y cofrestriadau. Mae ein canfyddiadau cychwynnol yn awgrymu bod gostyngiadau yn y bobologaeth o fyfyrwyr 17 a 18 oed yng Nghymru yn ffactor pwysig wrth esbonio'r gostynigad mewn cofrestriadau. Ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio'r cymwysterau hyn, mae nifer cyfartalog y cymwysterau Safon Uwch a gaiff eu sefyll fesul myfyriwr wedi parhau'n gymharol sefydlog yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond ymddengys bod nifer gyfartalog y cymwysterau UG a gaiff eu sefyll gan fyfyrwyr wedi gostwng ychydig. Byddwn yn trafod ein gwaith yn fanylach i ddeall y ffactorau sy'n cyfrannu at y gostyngiad mewn cofrestriadau ar gyfer cymwysterau UG a Safon Uwch yn fanylach yn ein blog, y byddwn yn ei gyhoeddi'n fuan.

Rhagor o wybodaeth: www.cymwysteraucymru.org E: ymholiadau@cymwysteraucymru.org
Ff: 01633 373 222 @cymwysterau_cym